Pwyllgor Newid Hinsawdd
10 South Colonnade,
Canary Wharf, Llundain
E14 4PU
theccc.org.uk

Huw Irranca-Davies AS
Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Gorffennaf 2025

Annwyl Ddirprwy Brif Weinidog,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyrau dyddiedig 16 Mai 2024 a 28 Mai 2025 yn gofyn am gyngor y Pwyllgor ar:

- Lefel Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru (2031 i 2035).
- A yw'r dystiolaeth ddiweddaraf yn cefnogi lefelau deddfwriaethol presennol Trydedd Gyllideb Garbon Cymru (2026 i 2030), targed interim 2030, a tharged interim 2040.
- Y diffiniad o unedau carbon a sefydlwyd gan Reoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018.
- Terfyn unedau carbon (a elwir hefyd yn gredydau carbon rhyngwladol) ar gyfer Trydedd Gyllideb Garbon Cymru.
- A ddylai Cymru fabwysiadu cyfran dybiannol o gap Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) ar gyfer y sector masnachu at ddibenion cyfrifyddu carbon a’r modd y gellid mynd ati i ddeddfu dull o'r fath.

## Lefel Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru

Ar 14 Mai 2025, cyhoeddodd y Pwyllgor ein cyngor ar lefel Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru. Fe wnaethom argymell y dylid gosod y Bedwaredd Gyllideb Garbon i’w gwneud yn ofynnol i allyriadau blynyddol cyfartalog dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2031 a 2035 fod o leiaf 73% yn is na gwaelodlin 1990, gan gynnwys cyfraniad Cymru at hedfanaeth a morgludiant rhyngwladol.[*]

Mae ein cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Garbon yn seiliedig ar ein Llwybr Cytbwys: llwybr uchelgeisiol ond cyflawnadwy o 2025 i gyrraedd Sero Net erbyn 2050.

[*] Y flwyddyn waelodlin yw 1990 ar gyfer CO2, methan, ac ocsid nitraidd a 1995 ar gyfer nwyon F. Rydym yn cyfeirio at hyn fel 'gwaelodlin 1990' trwy gydol ein cyngor.

Climate Change Committee

- Mae ein cyngor yn seiliedig ar y dystiolaeth dechnolegol, gymdeithasol ac economaidd ddiweddaraf; modelu helaeth o'r sector; ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Mae ein llwybr yn gyson â'r cyflymder sydd ei angen o ran gostwng allyriadau yng Nghymru er mwyn cyflawni'r targed Sero Net ar gyfer y DU gyfan erbyn 2050 a'r Cyfraniadau a Bennwyd yn Genedlaethol (NDCs) ar gyfer y DU o dan Gytundeb Paris.

## Trydedd Gyllideb Garbon Cymru a thargedau interim 2030 a 2040

Ym mis Mawrth 2021, cymeradwyodd Senedd Cymru lefelau Trydedd Gyllideb Garbon Cymru a thargedau interim ar gyfer 2030 a 2040.

Mae'r Llwybr Cytbwys a ddatblygwyd ar gyfer ein cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Garbon yn bodloni holl dargedau allyriadau presennol Cymru. Felly, barn y Pwyllgor yw bod lefelau Trydedd Gyllideb Garbon Cymru, targed interim 2030, a tharged interim 2040 yn parhau i fod yn gredadwy ac yn cael eu cefnogi gan y dystiolaeth ddiweddaraf (Tabl 1).

**Tabl 1**
**Targedau allyriadau Cymru a Llwybr Cytbwys CCC**

| | Lefel ddeddfwriaethol gyfredol (gostyngiad mewn allyriadau blynyddol cyfartalog ar lefelau 1990) | Llwybr Cytbwys (gostyngiad mewn allyriadau blynyddol cyfartalog ar lefelau 1990) | Lefel gorberfformiad yn erbyn y targed |
|---|---|---|---|
| **Trydedd Gyllideb Garbon (2026–2030)** | 58% | 58.1% | 0.3 MtCO2e (0.1 pwynt canran) |
| **Targed interim 2030** | 63% | 66.7% | 2.1 MtCO2e (3.7 pwynt canran) |
| **Targed interim 2040** | 89% | 89.2% | 0.1 MtCO2e (0.2 pwynt canran) |

**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru (2021) *Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon;* Dadansoddiad CCC.
**Nodiadau:** Mae lefelau'r allyriadau sy'n ofynnol i gyrraedd targedau Cymru a gyfrifir yn y cyngor hwn yn seiliedig ar *Restrau Nwyon Tŷ Gwydr yr NAEI ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 1990-2022*.

Mae yna nifer o elfennau y mae ansicrwydd yn eu cylch a allai effeithio ar lwybr Cymru i Sero Net. Felly, mae'n bwysig monitro cynnydd yn barhaus fel y gellir adnabod risgiau o ran cyflawni yn gynnar ac i ddatblygu cynlluniau wrth gefn y gellir eu gweithredu i ymateb i risgiau o'r fath.

- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r llwybr allyriadau, y dangosyddion sydd wrth wraidd y cynnydd, a ffactorau cyd-destunol perthnasol ehangach i nodi risgiau i dargedau allyriadau.

- Yn ein cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Garbon, disgrifiodd y Pwyllgor nifer o opsiynau wrth gefn y gellid eu hystyried.

Bydd cyflawni targedau allyriadau Cymru yn gofyn am ganolbwyntio ar gamau gweithredu allweddol yn y tymor byr, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladau, trafnidiaeth arwyneb, ac amaethyddiaeth a defnydd tir. Mae nifer o bwerau polisi sylweddol sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r sectorau hyn. Mae camau gweithredu allweddol ar gyfer y tymor byr yn cynnwys:

- **Cefnogi aelwydydd i osod systemau gwresogi carbon isel.** Mae  angen i Gymru drawsnewid yn gyflym i wres trydanol carbon isel. Er y dylai'r trawsnewidiad i Sero Net arwain at filiau ynni is i ddefnyddwyr, mae angen cefnogaeth i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â chostau a geir ymlaen llaw, yn enwedig yn achos aelwydydd incwm isel. Mae'n bwysig hefyd cefnogi aelwydydd, yn enwedig y rhai ar incwm isel, i osod mesurau i inswleiddio cartrefi. Gall y rhain leihau allyriadau cyn i systemau gwresogi newydd gael eu gosod, lleihau biliau, a darparu cartrefi mwy cyfforddus.

- **Ehangu seilwaith gwefru a theithio ar gyfer cerbydau trydan (EV).** Mae nifer y pwyntiau gwefru EV cyhoeddus fesul pen yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU ond bydd angen parhau i'w cynyddu yn unol â'r defnydd o EV. Gyda phrisiau cerbydau trydan newydd ac ail-law yn gostwng, mae cyfle i gynyddu'n gyflym y nifer sy'n eu defnyddio ar yr amod bod y seilwaith cywir ar waith a bod pobl yn cael gwybodaeth hygyrch a chywir am eu manteision. Dylai Cymru hefyd fuddsoddi i wella seilwaith teithio cyhoeddus a theithio llesol.

- **Darparu sicrwydd ynghylch ffermio a natur.** Mae angen sicrwydd hirdymor ar gyllid cyhoeddus ar gyfer arferion a thechnolegau ffermio i leihau allyriadau o reoli cnydau a da byw. Dylid darparu cymhellion a marchnadoedd i ffermwyr a rheolwyr tir arallgyfeirio eu hincwm ar gyfer gweithredu gyda hynny'n cynnwys creu coetiroedd, adfer mawndiroedd, ac ynni adnewyddadwy.

Mae angen lleihau allyriadau hefyd mewn sectorau lle mae pwerau wedi'u neilltuo'n bennaf i Lywodraeth y DU.[*] Bydd angen gostwng allyriadau yn y sectorau hyn er mwyn cyflawni targedau Cymru a'r DU gyfan, gan gynnwys NDC 2030. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau sydd ganddi yn y meysydd hyn (er enghraifft, polisi cynllunio) a gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod polisïau DU gyfan yn cael eu halinio â'r camau sy'n ofynnol i gyrraedd targedau Cymru.

- Mae gan Gymru nifer o ffynonellau mawr o allyriadau mewn sectorau sydd wedi'u neilltuo'n bennaf i'r DU, gan gynnwys Gorsaf Bŵer Penfro, Purfa Penfro, a Gorsaf Bŵer Cei Connah.

- Wrth i'r DU barhau i ddatgarboneiddio ac wrth i'r galw am weithgareddau carbon uchel ostwng, mae allyriadau yn y safleoedd hyn yn debygol iawn o ostwng. Disgwylir i

[*] Mae'r sectorau sydd wedi'u neilltuo'n bennaf yn cynnwys hedfanaeth, cyflenwi trydan, technolegau tynnu carbon, F-nwyon, cyflenwi tanwydd, diwydiant, a morgludiant.

berchnogion safleoedd unigol wneud penderfyniadau gweithredol i naill ai drosi i weithrediad carbon isel neu roi'r gorau i gynhyrchu.

  - Yn y sector cyflenwi trydan, bydd defnyddio ynni adnewyddadwy a thechnolegau carbon isel eraill ar hyd a lled Prydain Fawr yn lleihau ffactorau llwyth yn y gorsafoedd pŵer nwy heb fesurau lliniaru allyriadau yng Nghymru. Yn ein llwybr, mae ffactor llwyth cyfartalog gweithfeydd pŵer nwy heb fesurau lliniaru allyriadau yng Nghymru yn gostwng o 46% yn 2025 i 15% erbyn 2030 a 7% erbyn 2040. Mae hyn yn debyg i'r gostyngiad yn y ffactor llwyth a dybir ar gyfer gorsafoedd pŵer nwy heb fesurau lliniaru allyriadau ar draws gweddill Prydain Fawr.

- Mae amseriad y penderfyniadau hyn yn ansicr a gallai fod yn risg i gyflawni targedau allyriadau Cymru, ond mae'r effaith ar gyflawni'r Drydedd Gyllideb Carbon a tharged interim 2030 yn debygol o fod yn fach.

  - Gostyngodd allyriadau o'r cyflenwad trydan yn gyflymach nag yr oeddem yn tybio yn ein llwybr yn 2023, gan ostwng i 4.7 MtCO2e. Mae allyriadau'r cyflenwad trydan bellach yn is yn 2028 na'r lefel a dybiwyd yn ein llwybr.

  - Allyrrodd Cei Connah 0.7 MtCO2e yn 2024 ac mae gan weithredwr y ffatri gynlluniau i drosi i weithrediad carbon isel mor fuan â 2030. Pe bai'r ffatri yn parhau i weithredu heb ddal a storio carbon hyd at 2030, byddai disgwyl i allyriadau fod yn wahanol i'n llwybr gan 0.3 pwynt canran dros gyfnod y Drydedd Gyllideb Garbon a 1.3 pwynt canran yn 2030.

    - Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad disgwyliedig mewn ffactorau llwyth yn ystod cyfnod y Drydedd Gyllideb Garbon wrth i ynni adnewyddadwy barhau i gael ei ddefnyddio fwyfwy.

    - Mae'n bwysig nodi nad yw allyriadau ychydig yn uwch na'r disgwyl mewn un sector yn awgrymu, ynddynt eu hunain, y bydd unrhyw darged allyriadau penodol yn cael ei ragori arnynt. Mae'n debygol y bydd gwyriadau, cadarnhaol a negyddol, o ran y cyflymder a ddisgwylir o ran lleihau allyriadau ar hyn o bryd ar draws nifer o sectorau yn digwydd trwy gydol y trawsnewid.

  - Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd gweithrediadau mewn ffynonellau pwynt mawr yn gwyro yn sylweddol oddi wrth ein disgwyliadau mewn ffordd sy'n peryglu cyflawni targed interim 2040. Byddwn felly yn adolygu priodoldeb y targed hwn yn ddiweddarach os oes angen.

Mae gan Lywodraethau Cymru a'r DU rôl bwysig ar y cyd hefyd i gyflawni galluogwyr allweddol o ran trawsnewid Cymru i Sero Net, gan gynnwys ymgysylltiad effeithiol â'r cyhoedd a chynllunio rhagweithiol ar gyfer y cyfnod trosiannol.

- **Ymgysylltiad:** dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu i ddarparu gwybodaeth glir, ddibynadwy am y camau gweithredu mwyaf effeithiol i aelwydydd a busnesau yng Nghymru i leihau allyriadau a

manteision dewisiadau carbon isel, gan gyfeirio at y ffynonellau cyngor a chymorth sydd ar gael.

- **Swyddi a sgiliau:** dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sgiliau Sero Net i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi twf y gweithluoedd sydd eu hangen i gyflawni'r trawsnewidiad i Sero Net. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda busnesau a chymunedau a allai gael eu heffeithio gan y trawsnewidiad i Sero Net i ddatblygu cynlluniau pontio rhagweithiol sy'n galluogi mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a busnes diogel.

## Unedau carbon

Mae unedau carbon, a elwir hefyd yn gredydau carbon rhyngwladol, yn cynrychioli lleihau neu dynnu nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ('y Ddeddf'), mae gan Lywodraeth Cymru yr opsiwn i brynu credydau rhyngwladol i helpu i gyrraedd targedau allyriadau Cymru.

Ein cyngor yw y dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i gyflawni'r gostyngiadau allyriadau sydd eu hangen i gyrraedd targedau allyriadau Cymru drwy gamau datgarboneiddio domestig yng Nghymru. Mae hyn yn gyson â'n cyngor i Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Mae cynllunio i ddefnyddio credydau i gyrraedd targedau Cymru yn cyflwyno risgiau. Mae hyn yn cynnwys y potensial i leihau eglurder gweithredu sectorol domestig a methu â chyflawni cyllidebau carbon os yw'r cyflenwad credyd yn profi'n annibynadwy.

- Ar gyfer unrhyw ystyriaeth o gredydau, mae'n hanfodol bod egwyddorion cadarn ar gyfer prynu credyd yn cael eu dilyn. Mae'r rhain wedi'u nodi yng nghyngor y Pwyllgor yn 2019 ar Sero Net - cyfraniad y DU i atal cynhesu byd-eang. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys sicrhau bod credydau yn arwain yn wirioneddol at ddulliau ychwanegol a pharhaol i leihau allyriadau, osgoi cymell uchelgais ddomestig wannach mewn gwledydd sy'n gwerthu, ac alinio â nodau cynaliadwyedd ehangach.

- Er na ddylai credydau rhyngwladol fod yn rhan o gynlluniau datgarboneiddio Cymru ar hyn o bryd, efallai y bydd amgylchiadau yn y dyfodol yn golygu y dylid eu hystyried, megis ariannu dulliau rhyngwladol ar gyfer dal a storio carbon yn uniongyrchol o'r aer a mecanweithiau gwrthbwyso hedfanaeth a morgludiant o ansawdd uchel.

- Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor gan y Pwyllgor cyn defnyddio unedau carbon.

### Diffiniad o unedau carbon

Mae adran 3 o Reoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018 yn diffinio unedau carbon fel 'uned a ddyroddwyd o dan Erthygl 12 o Brotocol Kyoto a'r penderfyniadau a fabwysiadwyd o dan Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (UNFCCC) neu Brotocol Kyoto'. Mae i bob uned garbon swm cyfwerth ag un dunnell o garbon deuocsid.

Daeth ail gyfnod ymrwymiad Protocol Kyoto i ben yn 2020. Mae Erthygl 6 o Gytundeb Paris yn nodi mecanweithiau newydd i wledydd fynd ar drywydd cydweithrediad gwirfoddol i gyrraedd eu targedau hinsawdd, gan gynnwys trwy farchnadoedd carbon. Yn COP29 yn Baku yn 2024, cwblhawyd y llyfr rheolau ar gyfer Erthygl 6.

- Mae Erthygl 6.2 o Gytundeb Paris yn darparu'r sail i wledydd neu endidau eraill fasnachu credydau dwyochrog i'w defnyddio tuag at eu targedau lleihau allyriadau.

- Mae Erthygl 6.4 yn sefydlu mecanwaith canolog newydd, Mecanwaith Credyd Cytundeb Paris, y gellir ei ddefnyddio i fasnachu credydau carbon. Mae hyn yn gysyniadol debyg i'r Mecanwaith Datblygu Glân a sefydlwyd o dan Erthygl 12 o Brotocol Kyoto.

- Mae Erthygl 6 yn cynnig dau lwybr posibl i Lywodraeth Cymru brynu unedau carbon, a gellid defnyddio'r ddau ohonynt o dan naill ai Erthygl 6.2 neu 6.4. Y llwybrau hyn yw:

  - **Llwybr Cyfraniad a Bennir yn Genedlaethol (NDC).** Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno prynu credydau rhyngwladol sy'n cyfrannu at NDC ledled y DU, bydd angen iddynt ymgysylltu â Llywodraeth y DU, fel Parti i Gytundeb Paris, i hwyluso prynu credydau a'u neilltuo i gyfrif allyriadau Cymru.

  - **Llwybr dibenion lliniaru rhyngwladol eraill (OIMPs).** Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno prynu credydau rhyngwladol nad ydynt yn cyfrannu at NDC ledled y DU, bydd angen iddynt ymgysylltu â datblygwyr prosiectau sy'n barod i werthu credydau a datblygu trefniadau llywodraethu priodol i hwyluso'r pryniant.

Er ein bod yn glir na ddylai Llywodraeth Cymru gynllunio i ddefnyddio credydau rhyngwladol, rydym yn cydnabod y gallai Llywodraeth Cymru fod yn dymuno cael yr hyblygrwydd i brynu credydau yn y dyfodol pe bai hyn yn briodol. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diweddaru'r diffiniad o unedau carbon yn rheoliadau Cymru i ganiatáu prynu credydau o dan Erthygl 6 o Gytundeb Paris.

## Cyfyngiad ar y defnydd o unedau carbon ar gyfer y Drydedd Gyllideb Garbon

O dan Adran 33(4) o'r Ddeddf, rhaid i Lywodraeth Cymru osod cyfyngiad ar y defnydd o unedau carbon i fodloni cyllidebau carbon Cymru.

Fel y nodir uchod, mae ein cyngor yn parhau i fod yn glir y dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i gyflawni'r gostyngiadau mewn allyriadau sy'n ofynnol i fodloni'r Drydedd Gyllideb Garbon drwy gamau datgarboneiddio domestig yng Nghymru.

- Yn ein cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Carbon, dangosodd ein Llwybr Cytbwys lwybr ymarferol a chost-effeithiol i fodloni'r Drydedd Gyllideb Carbon heb ddefnyddio unedau carbon.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon am y risg o gynnydd arafach na'r disgwyl o safbwynt datgarboneiddio sectorau sydd wedi'u neilltuo yn bennaf, yn enwedig y sector

cyflenwi trydan. Fel y trafodwyd uchod, rydym o'r farn bod y risg hon i'r Drydedd Gyllideb Garbon a tharged interim 2030 yn isel. Yn hytrach, dylai'r ffocws fod ar weithredu i gyflawni gostyngiadau allyriadau mewn ardaloedd datganoledig yn bennaf, yn enwedig adeiladau, trafnidiaeth arwyneb, ac amaethyddiaeth a defnydd tir.

- Mae'r Ddeddf yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru pe bai penderfyniadau y tu allan i'w rheolaeth yn peryglu cyflawni targed allyriadau. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn i ofyn am gyngor gan y Pwyllgor ynghylch a yw targed presennol yn dal i fod yn briodol a'r gallu i gario hyd at 1% o gyllideb garbon yn y dyfodol yn ôl i'r cyfnod cyllidebol blaenorol.

Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y cyfyngiad uchaf ar y defnydd o unedau carbon ar gyfer y Drydedd Gyllideb Garbon yn cael ei osod ar 0% o gyfanswm yr allyriadau a ganiateir dros gyfnod y Drydedd Gyllideb Garbon.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am gyngor pellach gan y Pwyllgor cyn gosod unrhyw gyfyngiad ar y defnydd o unedau carbon ar gyfer cyfnod y Bedwaredd Gyllideb Garbon.

## Cyfrifyddu carbon y sector masnachu

Mae dau ddull gwahanol o gyfrif am allyriadau yn sector masnachu Cymru.

- **Cyfrif allyriadau gwirioneddol:** dim ond gostyngiadau mewn allyriadau sy'n digwydd o fewn tiriogaeth Cymru sy'n cyfrif tuag at gyrraedd targedau allyriadau Cymru.* Dyma'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd, yn dilyn cyngor y Pwyllgor yn 2017 ar ddylunio targedau carbon Cymru.

- **Cyfrifyddu cyfran dybiannol:** ar gyfer sectorau o fewn ETS y DU, gwneir addasiad i lefel wirioneddol yr allyriadau i gyfrif am fasnachu net gan osodiadau Cymreig o fewn ETS y DU. Mae'r allyriadau net hyn yn y bôn yn adlewyrchu cyfran Cymru o gap ETS y DU ('cyfran dybiannol'). Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn lleihau cwmpas targedau allyriadau Cymru i gwmpasu'r sector nad yw'n cael ei fasnachu yn unig.

Mae gan ddull cyfrifyddu carbon sy'n seiliedig ar allyriadau gwirioneddol fanteision clir.

- **Tryloywder:** mae'n bwysig bod targedau allyriadau yn darparu signal clir i wneuthurwyr polisi, buddsoddwyr, a'r cyhoedd ehangach am lefel y gostyngiadau allyriadau sydd eu hangen. Y dull mwyaf tryloyw yw cyfrif am allyriadau gwirioneddol ym mhob sector.

- **Ffocws polisi:** mae'r fframwaith cyllidebau carbon wedi'i gynllunio i yrru gweithredu'n seiliedig ar bolisi i leihau allyriadau. Mae gan Lywodraeth Cymru rai pwerau polisi yn y sector masnachu. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys meysydd fel gallu polisi cynllunio i ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi ond, wrth i gwmpas ETS y DU gael ei ehangu, bydd hefyd yn cynnwys meysydd eraill yn y dyfodol, megis ynni o wastraff. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig hefyd i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod polisïau

* Mae cyfran Cymru o allyriadau hedfanaeth a morgludiant hefyd wedi'u cynnwys yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf.

ar gyfer y DU gyfan yn cael eu halinio â'r camau sydd eu hangen i gyrraedd targedau Cymru. Mae'r dull allyriadau gwirioneddol yn gofyn am weithredu priodol gan Lywodraeth Cymru ar draws pob sector.

- **Cysondeb:** mae'r DU, yr Alban, a Gogledd Iwerddon i gyd yn adrodd yn seiliedig ar allyriadau gwirioneddol, felly mae'n werth cynnal y dull hwn er mwyn caniatáu dealltwriaeth gyson o gyfraniad cymharol pob cenedl tuag at ddatgarboneiddio. Mae hefyd yn darparu cysondeb o ran cyfrifyddu rhwng y sectorau masnachu a rhai nad ydynt yn cael eu masnachu – gall dulliau cyfrifyddu allyriadau sy'n trin rhai sectorau yn wahanol ystumio strategaethau datgarboneiddio.

Mae gan y dull allyriadau gwirioneddol risgiau hefyd, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd targedau allyriadau yn cael eu colli oherwydd penderfyniadau y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn barnu bod y risgiau hyn yn fach ac yn rhai y gellir eu lliniaru.

- Fel y trafodwyd yn yr adran uchod ar Drydedd Gyllideb Garbon Cymru a thargedau interim 2030 a 2040, rydym o'r farn bod effaith datgarboneiddio arafach yn y sector masnachu ar gyflawni'r Drydedd Gyllideb Garbon a tharged interim 2030 yn debygol o fod yn fach.

- Fel y trafodwyd yn yr adran uchod ar unedau carbon, mae'r Ddeddf yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru pe bai penderfyniadau y tu allan i'w rheolaeth yn peryglu cyflawni targed allyriadau.

Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddefnyddio allyriadau gwirioneddol at ddibenion cyfrifyddu carbon ar draws pob sector o economi Cymru.

Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU eu hymrwymiad i gysylltu cynlluniau masnachu allyriadau'r DU a'r UE. Pan fydd manylion y cysylltiad hwn yn gliriach, bydd y Pwyllgor yn ystyried a fyddai'n briodol ailedrych ar ein cyngor ar gyfrifo carbon y sector masnachol.

Dylai Llywodraeth Cymru roddi blaenoriaeth yn awr i ganolbwyntio ar y camau gweithredu allweddol yn y tymor byr a nodwyd yn ein cyngor ar y Bedwaredd Gyllideb Garbon, yn enwedig yn y sectorau adeiladau, trafnidiaeth arwyneb ac amaethyddiaeth a defnydd tir sydd wedi'u datganoli i raddau helaeth.

Byddwn yn hapus iawn i gwrdd â chi i ddilyn i fyny ar unrhyw bwyntiau i'w trafod.

Yn gywir

Nigel Topping CMG
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd